**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru

03/02/2021

Annwyl Kirsty,

**Gwelliannau cyfnod 2 i Fil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Roeddwn yn siomedig y gwrthodwyd gwelliant 44 (Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwwm) pan drafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg welliannau i Fil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Er hynny, roeddwn yn falch o glywed eich ymrwymiad i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflwyno Fframwaith Iaith Gymraeg, fyddai yn darparu cefnogaeth benodol o ran addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae gen i ddiddordeb mewn deall mwy am y fframwaith hwn, a buasem yn fwy na pharod i gyfrannu at ei ddatblygiad pe byddai hynny yn ddefnyddiol.

Yn ystod trafodaeth y pwyllgor o'r gwelliannau, fe wnaethoch bortreadu'r cynnig o 'god ar gyfer addysgu'r Gymraeg' fel fframwaith fyddai'n gosod dyletswyddau ychwanegol ac unigryw ar athrawon cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac nid ar ysgolion cyfrwng Saesneg. Nid yw'r dehongliad hwn yn gyson â'r hyn rydym ni, ac eraill, wedi'i amlinellu fyddai pwrpas a natur cod addysgu'r Gymraeg. Rydym wedi bod yn eglur iawn mai prif bwrpas cod fyddai codi disgwyliadau a darparu cefnogaeth ychwanegol i ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn benodol (fel y gwnaethom amlinellu mewn manylder yn ein llythyr i chi ar 19 Ionawr 2021). Wrth gwrs, bydd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn datblygu ar hyd continwwm iaith Gymraeg mewn ffordd wahanol i'r dysgwyr hynny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Pwrpas cod fyddai darparu cefnogaeth ychwanegol i ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog er mwyn cyflawni'r weledigaeth hir dymor o leihau'r bwlch hwn yn y dyfodol. Byddai cod yn adlewyrchu realiti'r sefyllfa gyfredol, lle mae'n rhaid gosod disgwyliadau gwahanol ar ddysgwyr mewn ysgolion sydd mewn categorïau ieithyddol gwahanol, ond ar yr un pryd byddai'n cynnig mecanwaith deddfwriaethol er mwyn codi disgwyliadau yn raddol, ac i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn.

Fe wnaethoch hefyd nodi bod fy 'ngofynion' i o ran y ddeddfwriaeth yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn all gael ei gyflawni ym Mil y cwricwlwm. Rydym wedi awgrymu y dylai'r Bil

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

gynnwys darpariaethau ar gyfer diffinio categorïau ieithyddol ysgolion, ond mae hyn yng nghyd-destun y ffaith fod papur gwyn y Llywodraeth yn 2019 yn cynnwys ymrwymiad penodol i gynnwys hyn yn neddfwriaeth y cwricwlwm. O ran materion yn ymwneud â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol, rydym wedi pwysleisio fod Bil y cwricwlwm yn ganolog i'r datblygiadau ehangach hyn. Nid ydym erioed wedi awgrymu y gall Bil y cwricwlwm rywsut ddatrys anghenion y gweithlu addysg, nac ychwaith y materion eraill a restrwyd. Er hynny, rydym o'r farn fod y Bil yn debygol o ddylanwadu a siapio penderfyniadau allweddol yn y meysydd polisi hyn yn y dyfodol. Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, y bydd datblygiadau polisi mewn meysydd fel cynllunio'r gweithlu yn hollbwysig o ran cyflawni amcanion y cwricwlwm newydd.

Rwyf yn gobeithio y bydd y llythyr hwn yn egluro ein safbwynt ar y materion uchod, ac yn amlygu'r ffaith ein bod yn rhannu'r un pryderon ynghylch yr angen i osod disgwyliadau clir ar ysgolion o ran yr iaith Gymraeg, ac yn bwysicach fyth yr angen i ddarparu cefnogaeth er mwyn galluogi ysgolion i gyflawni hyn. Fel y dadleuais yn fy nhystiolaeth gychwynnol i'r Pwyllgor yn ystod trafodaethau cam 1 y Bil, rydym o'r farn mai drwy god statudol y dylid gwneud hyn. Er hynny, rydym yn obeithiol y gall mwyafrif o'r hyn yr oeddwn yn dymuno ei weld mewn cod hefyd gael ei gyflawni drwy gyflwyno Fframwaith Iaith Gymraeg statudol, ac byddai fy swyddogion yn fwy na hapus i gyfrannu at y gwaith hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir,



**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at:

Lynne Neagle AS, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,
Lynne.Neagle@senedd.cymru